# 1. Rhagair

Croeso i'r adroddiad blynyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Rydym wedi dod drwy flwyddyn heriol, gyda'r Gronfa yn llwyddo i gyflawni dychweliadau cadarnhaol eto yn 2019/20, ond bod effaith COVID-19 i'w weld ar werth y Gronfa ar 31 Mawrth 2020.

Derbyniwyd canlyniadau gwych o'r prisiad actiwaraidd teirblynyddol 2019, gyda'r Gronfa wedi'i ariannu i lefel o 108% ar 31 Mawrth 2019 (cynnydd sylweddol o'r sefyllfa lle roedd wedi'i ariannu 91% yn y prisiad teirblynyddol 2016). Er bod sefyllfa pob cyflogwr unigol yn ein Cronfa yn wahanol, yn gyffredinol mae cryfder y Gronfa wedi caniatáu i ni gymryd agwedd hyblyg tuag at gyfraddau cyfrannu cyflogwyr sydd yn effeithiol ers Ebrill 2020. Mae hyn wedi bod yn gymorth calonogol i lawer o brif gyflogwyr is-ranbarth gogledd-gorllewin Cymru, o ystyried y pwysau parhaus ar gyllidebau cyrff cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol yn derbyn lefel îs o grantiau penodol.

Mae Cronfa Gwynedd wedi parhau i gydweithio'n agos gyda'r saith cronfa arall yng Nghymru er mwyn pŵlio buddsoddiadau. Mae swmp o asedau ecwiti byd-eang y Gronfa eisoes wedi ei drosglwyddo i 2 bortffolio ecwiti Partneriaeth Pensiwn Cymru yn Chwefror 2019, yn ogystal â'r mandad ar y cyd gyda BlackRock ar gyfer buddsoddiadau ecwiti goddefol yr wyth cronfa Cymreig. Erbyn 31 Mawrth 2020, roedd 60% o asedau'r Gronfa mewn cerbydau'r Bartneriaeth, a dylai hynny wella gwydnwch ein Cronfa, tra'n dal i gadw perchnogaeth a chyfrifoldeb am fuddsoddiadau Gwynedd. Yn ystod haf 2020, rydym hefyd wedi trosglwyddo asedau i gronfeydd incwm sefydlog Partneriaeth Pensiwn Cymru, gyda'r cronfeydd ecwiti marchnadoedd datblygol i ddilyn nesaf yn haf 2021.


Wedi adolygu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn 2018/19, gweithredwyd dad-risgio cymedrol trwy drosglwyddo cyfran o'r asedau ecwiti i incwm sefydlog, er rydym yn parhau i ganolbwyntio ar asedau twf disgwylir iddynt ennill dychweliadau mwy deniadol dros y tymor hwy na buddsoddiadau risg is.

Hefyd, yn unol â'r egwyddorion buddsoddi cyfrifol datblygwyd yn 2018/19, tra'n ystyried ffactorau amgylcheddol, buddsoddwyd 12% o werth y gronfa bensiwn mewn asedau ecwiti goddefol mwy cynaliadwy yng nghronfa carbon isel BlackRock. Mae'r gronfa yma'n lleihau amlygiad i gwmnïau yn y Mynegai Byd-eang safonol sy'n allyrru carbon. Drwy olrhain y Mynegai Carbon Isel MSCI, o'i gymharu ag olrhain y mynegai safonol, bydd y gronfa yma'n lleihau'r amlygiad carbon hyd at 80%.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn arwain o'r blaen wrth wneud beth bynnag y gallwn ni i sicrhau ein bod yn gweithredu'n gyfrifol rŵan, ac yn ystyried yr effaith y bydd ein gweithredoedd yn eu cael ar genedlaethau'r dyfodol. Mae camau pellach tuag at fuddsoddi cyfrifol o ran ystyriaeth o ffactorau amgylcheddol dan sylw yn 2020/21.

## 4. Ystadegau Aelodaeth

Mae'r graff isod yn dangos y newid yn aelodaeth y Gronfa dros yr 19 mlynedd ddiwethaf. Mae'n dangos bod nifer y pensiynwyr wedi cynyddu yn raddol o 4,931 yn 2001 i 10,308 yn 2020 ac mae nifer y cyfranwyr hefyd wedi cynyddu o 10,948 yn 2001 i 19,129 yn 2020.




Ceir niferoedd pellach am bensiynwyr gohiriedig a buddion heb eu hawlio yn y tabl isod:

| 31 Mawrth 2019 | Disgrifiad | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| 18,544 | Cyfranwyr | 19,129 |
| 11,793 | Pensiynwyr Gohiriedig | 12,464 |
| 9,777 | Pensiynau a Delir | 10,308 |
| 1,671 | Buddion heb eu hawlio | 1,803 |
| **41,785** | **Cyfanswm Aelodaeth** | **43,704** |

## Cwynion

Yn ffodus mae'r nifer o gwynion a dderbyniwyd yn isel iawn gyda'r arolwg boddhad aelodau yn dangos bod mwyafrif o aelodau yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r rhan fwyaf o gwynion yn ymwneud ag aelodau sydd wedi cael eu gwrthod am fuddion ymddeoliad salwch, aelodau sydd eisiau ad-daliad o gyfraniadau pensiwn yn dilyn pensiwn yn cael ei diddymu o'u cyflog gan y cyflogwr, ac oediad i brosesu buddion ymddeol gan ein bod heb dderbyn y wybodaeth gan y cyflogwyr. Mae'r cwynion uchod fel rheol allan o reolaeth yr adran bensiynau, ac fel arfer rydym yn cyfeirio'r aelod yn ôl at eu cyflogwr.

Mae cwynion sy'n deillio o berfformiad yr adran bensiynau ei hun yn cynnwys oediad (yn farn aelodau) i brosesu eu buddion ymddeol neu ad-daliadau o gyfraniadau pensiwn, camgymeriad teipio mewn llythyrau a anfonwyd allan a manylion Taliadau BACS pensiynwyr heb ei newid gan fod y gyflogres wedi cau. Rydym yn cywiro unrhyw wallau cyn gynted â phosibl a cheisio newid ein prosesau, os yn briodol, i osgoi'r un camgymeriad ddigwydd eto.

## System Hunan Wasanaeth Aelodau

Yn ystod 2019/20 mae gwaith wedi cymryd lle i uwchraddio'r wefan Hunan Wasanaeth Aelodau (HWA). Y gobaith oedd lansio'r safle newydd erbyn diwedd 2019. Yn anffodus, oherwydd materion technegol amrywiol, ni oedd hyn yn bosibl. Fodd bynnag, fe lansiwyd y safle ddiwedd mis Ionawr 2020.

Mae'r wefan newydd yn rhoi gwell profiad ar-lein i'n haelodau, gyda rhyngwyneb sy'n edrych mwy deniadol ac yn haws i'w ddefnyddio. Mae'r system HWA yn caniatáu i aelodau:

- Gweld a diweddaru manylion personol a newidiadau cyfeiriad
- Darganfod faint y byddant yn ei dderbyn wrth ymddeol
- Cyfrifo'r swm y lwmp swm ychwanegol y gallant ei gymryd wrth ymddeol
- Gweld hanes eu gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw wasanaeth wedi ei drosglwyddo
- Gweld a diweddaru eu buddiolwyr enwebedig
- Gweld eu Datganiadau Buddion Blynyddol

Roedd bwriad ar ddiwedd y flwyddyn dreth i lansio ymgyrch hyrwyddo'r wefan newydd. Mae'r prosiect yma wedi cael ei atal ar hyn o bryd tra mae aelodau yn ymdrin â dyletswyddau hanfodol o sgil y Coronafirws.

Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â gweithredu unrhyw lanhau data a amlygwyd fel rhan o'r ymarfer hwn a disgwylir i'r glanhau data hwn wella'r sgoriau data ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Staffio**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae newid mawr wedi cymryd lle o ran staffio'r adran Bensiynau gyda staff profiadol yn gadael a nifer fawr o staff newydd yn ymuno a'r tîm Yn fis Mai 2019 cychwynnodd Nicholas Hopkins gyfnod o ymddeoliad hyblyg, ac ymddeol yn gyfan gwbl fel Rheolwr Pensiynau ar 30ain Tachwedd 2019, gyda Meirion Jones yn cymryd yr awenau'n llwyr ar 1af Rhagfyr 2019. Oherwydd y newid hwn mae cyfweliadau wedi bod yn cael eu cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf i ail staffio'r adran yn llawn. Felly rydym wedi dyrchafu nifer o staff i'r rolau canlynol:

- Uwch Swyddog Pensiynau a Llywodraethu - Gwennan Williams
- Uwch Swyddog Cyfathrebu - Glesni Jones
- Swyddog Pensiynau - Ayesha Trainor
- Swyddog Cyfathrebu - Bronwen Williams
- Technegydd Pensiynau - Leanne Hunt-Hughes
- Technegydd Systemau – Eluned Hughes

Hefyd, mae nifer fawr o staff newydd wedi ymuno a'r tîm:

- Owain Pritchard - Swyddog Systemau
- Elin Hughes - Cymhorthydd Pensiynau
- Rhiannon Hughes - Cymhorthydd Pensiynau
- Alwen Johnson - Cymhorthydd Pensiynau
- Wendy Owen - Cymhorthydd Pensiynau

Gyda chymaint o newidiadau o fewn yr adran mae yna lawer o waith wedi cymryd lle i hyfforddi'r staff yn eu swyddi newydd.

**Hyfforddiant**

Yn ystod 2019/20 mae tri aelod o staff wedi cwblhau cwrs Tystysgrif Gweinyddiaeth Pensiynau Sefydliad Siartredig y Gweithwyr Cyflogres Broffesiynol (CIPP). Roedd y cwrs hwn yn cynnwys cwblhau chwe aseiniad ac un arholiad.


Hefyd mae pedwar aelod o staff wedi dechrau astudio tuag at Radd Sylfaen mewn Gweinyddu a Rheoli Pensiynau. Mae'r radd sylfaen yn gymysgedd o aseiniadau ac arholiadau a bydd yn cymryd 2 flynedd i'w chwblhau. Rwy'n falch o adrodd bod y pedwar yn dod ymlaen yn dda gyda'r cwrs hwn, gyda'r holl aseiniadau ac arholiadau hyd yn hyn wedi'u cwblhau'n llwyddiannus.

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi yn ddiweddar ar lwfans blynyddol ac oes i staff perthnasol yr adran gan Ian Colvin, Pennaeth Ymgynghoriaeth Budd-daliadau Hymans Robertson. Edrychodd y sesiwn hon ar gyfrifiadau heriol lwfans blynyddol ac oes. Derbyniwyd adborth cadarnhaol a gobeithir y bydd y sesiwn yn ein helpu i ddeall yn well y set gymhleth hon o reoliadau a darparu gwasanaeth gwell i'n haelodau.

## 6. Buddsoddiadau

### 6.1 Sefyllfa Diwedd Flwyddyn

Mae'r Gronfa wedi perfformio'n gryf ers cwymp 2008/09 gyda gwerth y Gronfa yn cynyddu pob blwyddyn. Mae'r flwyddyn yma wedi bod yn heriol dros ben gyda cynnydd cadarnhaol y 9 mis cyntaf yn cael ei ddiddymu gyda gostyngiad o rhyw 25%-30% mewn marchnadoedd ecwiti yn nechrau 2020 fel oedd effeithiau pandemig COVID 19 yn dod yn glir gyda llawer o economïau'n cau lawr. Mae'r cyfnod yma wedi bod yn ansicr ac mi fydd y cyfnod adfer yn cymryd amser.




**Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi**

Dros gyfnod yr adroddiad hwn roedd 5 Rheolwr Buddsoddi fel a ganlyn: BlackRock, Fidelity International (Fidelity), Insight Investment (Insight), Partneriaeth Pensiwn Cymru a Partners Group. Mae'r gronfa hefyd wedi gwneud buddsoddiad uniongyrchol gyda Chronfa Eiddo Lothbury, Cronfa Eiddo Pensiwn Threadneedle, a Chronfa Eiddo UBS Life Triton. Mae arian parod gyda Veritas yn dilyn y trosglwyddiad i PPC yn Chwefror 2019.

Mae PPC wedi cyflawni cryn gynnydd tuag at gyflawni'r amcan hwn drwy lawnsio tair is-gronfa, gyda Cronfa Bensiwn Gwynedd yn rhan o ddau ohonynt, sef Global Growth a Global Opportunities. Bydd PPC yn parhau i ddatblygu is-gronfeydd mewn cydweithrediad a Link Fund Solutions Ltd a Russell Investments. Hyd yma, mae PPC wedi cronni oddeutu 47% o'i hasedau ac, erbyn diwedd Mawrth 2021, disgwylir y bydd oddeutu 60% wedi cronni.


Yn ystod y flwyddyn ni chafwyd unrhyw drosglwyddiadau pellach i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ond mae PPC wedi cael blwyddyn brysur a chynhyrchiol iawn, ac mae'r partneriaeth wedi dechrau canolbwyntio ar y 12 mis sydd i ddod. Bydd yr uchafbwyntiau penodol dros y flwyddyn a hanner nesaf yn cynnwys lawnsio is-gronfeydd incwm sefydlog a marchnadoedd datblygol a parhau i ddatblygu cynigion o ran marchnadoedd preifat a fydd yn cynnwys eiddo, isadeiladwaith ac effeithiau cymdeithasol.


Ers sefydlu yn Chwefror 2019 mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi arbed **£1,012,683** gyda'r cronfeydd ecwiti.

Dyma gwerth y ddau gronfa o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru ar 31 Mawrth 2020:

| 2019/20 | Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2019 | Prynianna u yn ystod y flwyddyn | Gwerthianna u yn ystod y flwyddyn | Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn | Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cronfa Global Growth PPC | 322,200 | 0 | 0 | (23,581) | 298,619 |
| Cronfa Global Opportunities PPC | 320,881 | 0 | 0 | (15,263) | 305,618 |
| **Cyfanswm PPC** | **643,081** | | | **(38,844)** | **604,237** |

Gyda'r rhaniad o fewn y Cronfeydd cyfan fel a ganlyn ar 31 Mawrth 2020:






Mae'r cyfnod yma wedi bod yn heriol i berfformiad Partneriaeth Pensiwn Cymru a ceir manylder perfformiad fesul rheolwr buddosddi unigol isod.

Y meincnod yw MCSI ACWI sydd yn -6.74% am y flwyddyn a -3.76% ers Chwefror 2019.

| Rhaniad ar 31 Mawrth 2020 | Rheolwr Buddsoddi | Enillion Blwyddyn | Enillion ers Chwefror 2019 |
|---|---|---|---|
| **PPC Global Growth Fund** | | | |
| 43.23% | Baillie Gifford | -0.78% | 2.47% |
| 28.35% | Pzena | -20.29% | -18.67% |
| 26.83% | Veritas | -0.20% | 2.64% |
| 1.59% | Cyfrif Gweithredwr | d/b | d/b |
| **100.00%** | **Cronfa Gyfan** | **-6.92%** | **-4.58%** |
| | | | |
| **PPC Global Opportunities Fund** | | | |
| 9.43% | Morgan Stanley | 7.83% | 9.65% |
| 14.18% | Jacobs Levy | -2.22% | -1.89% |
| 16.93% | Numeric | -4.90% | -4.43% |
| 15.35% | NWQ Investment Management | -2.38% | -4.31% |
| 14.14% | Oaktree | -16.72% | -14.59% |
| 16.00% | Sanders Capital | -3.13% | -3.27% |
| 7.20% | SW Mitchell | -6.71% | -5.15% |
| 6.68% | RI- Overlays | d/b | d/b |
| 0.09% | Cyfrif Gweithredwr | d/b | d/b |
| **100.00%** | **Cronfa Gyfan** | **-6.92%** | **-4.58%** |

Ceir cyfarfodydd gyda'r rheolwr portffolio a rheolwyr buddsoddi yn chwarterol, ble mae swyddogion, aeoldau'r pwyllgor a bwrdd pensiynau yn cael cyfle i fonitro a herio perfformiad y cronfeydd.

Mae PPC wedi parhau i ddatblygu llywodraethu cadarn yn ystod y flwyddyn ac wedi penodi Hymans Robertson ym mis Ionawr 2020 i gynnig goruchwyliaeth a chyngor ar strategaeth y gronfa, ynghylch llywodraethu, gwasanaethau gweithredwyr a Buddsoddi strategol. Mae'r dogfennau yma wedi ei cyhoeddi yn y flwyddyn:

- Datganiad Credoau
- Matrix Llywodraethu
- Polisi Buddsoddi Cyfrifol
- Cynllun Cyfathrebu
- Cynlluniau Hyfforddiant

Lansiwyd gwefan PPC ym mis Medi 2019 ac mae'n offeryn ardderchog i ddysgu a deall mwy am y gronfa. Gallwch ddod o hyd i'r wefan yma: https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

Adolygwyd y Datganiad Strategaeth Cyllido yn ystod 2019/20 er mwyn adlewyrchu'r Prisiad Actiwaraidd ar 31 Mawrth 2019. Roedd y broses adolygu yn cynnwys ymgynghoriad gyda holl gyflogwyr y Gronfa ac Actiwari'r Gronfa. Mabwysiadwyd y Datganiad Strategaeth Cyllido cyfredol ar 20 Mawrth 2020 gan y Pwyllgor Pensiynau. Mae'n cynnwys cyfraddau cyfraniad bob cyflogwr o 1 Ebrill 2020 ymlaen.

Mae copi o'r Strategaeth Cyllido ar gael yn Atodiad 9.1, neu ar safle we'r gronfa: https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/Datganiad-Strategaeth-Cyllido-2020.pdf

## 7.4 Perfformiad Ariannol

**Incwm**

| | **Gwir 2018/19 £'000** | **Gwir 2019/20 £'000** |
|---|---|---|
| Cyfraniadau Gweithwyr/ Aelodau | 17,003 | 17,914 |
| Cyfraniadau Cyflogwyr | 50,927 | 56,502 |
| Trosglwyddiadau i Mewn | 3,007 | 4,887 |
| Incwm Buddsoddi | 13,769 | 9,318 |
| Incwm Arall | 6 | 5 |
| **Cyfanswm Incwm** | **84,712** | **88,626** |

Cafwyd cyfraniadau uwch yn 2019/20 oherwydd cyfraniad unwaith ac am byth gan yr awdurdod gweinyddol. Gwelwyd leihad yn yr incwm buddsoddi wrth i'r incwm o gronfeydd ecwiti PPC cael ei rolio o fewn y pris.

**Gwariant**

| | **Gwir 2018/19 £'000** | **Gwir 2019/20 £'000** |
|---|---|---|
| Buddion a dalwyd neu sy'n daladwy | (59,213) | (62,328) |
| Taliadau i rai sy'n ymadael | (3,128) | (4,669) |
| Costau Rheoli | (14,659) | (13,121) |
| **Cyfanswm Gwariant** | **(77,000)** | **(80,118)** |

Ceir cynnydd yn y buddion a dalwyd i gymharu a 2018/19 oherwydd cynnydd yn y nifer o bensiynwyr.

## NODYN 7 – CYFRANIADAU

### Yn ôl categori

| 2018/19 £'000 | | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| 17,003 | Cyfraniadau Gweithwyr/Aelodau | 17,914 |
| | Cyfraniadau Cyflogwyr : | |
| 50,821 | • Cyfraniadau arferol | 56,376 |
| 106 | • Cyfraniadau adfer diffyg | 126 |
| **50,927** | **Cyfanswm Cyfraniadau Cyflogwyr** | **56,502** |
| **67,930** | **Cyfanswm Cyfraniadau Derbyniadwy** | **74,416** |

### Yn ôl math o gyflogwr

| 2018/19 £'000 | | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| 22,410 | Cyngor Gwynedd | 27,055 |
| 40,980 | Cyrff eraill ar yr atodlen | 42,075 |
| 2,000 | Cyrff a ganiateir | 2,076 |
| 1,953 | Cyrff cymunedol a ganiateir | 2,623 |
| 247 | Cyrff trosglwyddo a ganiateir | 221 |
| 268 | Cyrff a benderfynir | 312 |
| 72 | Cronfa gaeedig* | 54 |
| **67,930** | | **74,416** |

*Cronfa gaeedig - Dyma'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan Bwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru a Theatr Ardudwy yn ystod y flwyddyn a oedd yn arfer bod yn gyrff a ganiateir ond bellach sydd yn gronfa gaeedig.

## NODYN 8 – INCWM ARALL

| 2018/19 £'000 | | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| 1 | Llôg ar Gyfraniadau Gohiriedig | 2 |
| 5 | Incwm ar Gyfrifo Ysgariad | 3 |
| **6** | | **5** |

## NODYN 9 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

| 2018/19 £'000 | | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| 3,007 | Trosglwyddiadau unigol | 4,887 |
| **3,007** | | **4,887** |

## NODYN 10 – BUDDION A DALWYD

### Yn ôl categori

| 2018/19 £'000 | | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| 45,278 | Pensiynau | 48,356 |
| 11,949 | Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm | 12,343 |
| 1,986 | Buddion marwolaeth – lwmp swm | 1,629 |
| **59,213** | | **62,328** |

### Yn ôl math o gyflogwr

| 2018/19 £'000 | | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| 16,494 | Cyngor Gwynedd | 17,714 |
| 30,510 | Cyrff eraill ar yr atodlen | 31,958 |
| 1,467 | Cyrff a ganiateir | 1,520 |
| 963 | Cyrff cymunedol a ganiateir | 1,472 |
| 61 | Cyrff trosglwyddo a ganiateir | 223 |
| 225 | Cyrff a benderfynir | 119 |
| 9,493 | Cronfa gaeedig | 9,322 |
| **59,213** | | **62,328** |

## NODYN 11 – TALIADAU I RAI SY'N YMADAEL

| 2018/19 £'000 | | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| 139 | Ad-daliadau i aelodau sy'n ymadael â'r gwasanaeth llai ad-daliadau treth | 161 |
| 2 | Taliadau i aelodau sy'n ymuno â chynllun y wladwriaeth | 1 |
| 984 | Trosglwyddiadau grŵp | 0 |
| 2,003 | Trosglwyddiadau unigol | 4,507 |
| **3,128** | | **4,669** |

Roedd y trosglwyddiad grwp yn 2018/19 i'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Nodyn 16a – Cysoni symudiadau mewn buddsoddiadau a deilliadau

| **2019/20** | **Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2019** | **Pryniannau yn ystod y flwyddyn** | **Gwerthia-nnau yn ystod y flwyddyn** | **Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn** | **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2020** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ecwiti | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cerbydau buddsoddi wedi eu pwlio (CBP) | 1,908,982 | 31,189 | (10,317) | (158,569) | 1,771,285 |
| Ecwiti preifat / Is adeiladwaith (CBP) | 145,613 | 26,464 | (13,054) | (1,793) | 157,230 |
| | 2,054,595 | 57,653 | (23,371) | (160,362) | 1,928,515 |
| Adneuon arian parod | 538 | | | | 783 |
| Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiant buddsoddiadau | 0 | | | | 0 |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau | (123) | | | | 0 |
| Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno | | | | 8,844 | |
| **Asedau buddsoddi net** | **2,055,010** | | | **(151,518)** | **1,929,298** |

| **2018/19** | **Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2018** | **Pryniannau yn ystod y flwyddyn** | **Gwerthia-nnau yn ystod y flwyddyn** | **Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn** | **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2019** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ecwiti | 337,188 | 115,778 | (489,524) | 36,558 | 0 |
| Cerbydau buddsoddi wedi eu pwlio (CBP) | 1,412,705 | 631,601 | (216,255) | 80,931 | 1,908,982 |
| Ecwiti preifat / Is adeiladwaith (CBP) | 104,310 | 43,758 | (11,401) | 8,946 | 145,613 |
| | 1,854,203 | 791,137 | (717,180) | 126,435 | 2,054,595 |
| Adneuon arian parod | 44,352 | | | 31 | 538 |
| Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiant buddsoddiadau | 5,432 | | | | 0 |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau | (4,690) | | | | (123) |
| Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno | | | | 9,194 | |
| **Asedau buddsoddi net** | **1,899,297** | | | **135,660** | **2,055,010** |

## Nodyn 16b – Dadansoddiad o fuddsoddiadau

| 31 Mawrth 2019 £'000 | | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| 1,444,431 | Cronfa Ecwiti (CBP) | 1,299,750 |
| 285,250 | Cronfa Llog Sefydlog (CBP) | 280,279 |
| 179,301 | Cronfeydd Buddsoddiadau Eiddo (CBP) | 191,256 |
| 107,218 | Ecwiti preifat (CBP) | 112,661 |
| 38,395 | Is adeiladwaith (CBP) | 44,569 |
| **2,054,595** | | **1,928,515** |

### Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

| Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2019 | | | Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **%** | | **£'000** | **%** |
| 656,138 | 31.9 | BlackRock | 565,379 | 29.3 |
| 192,395 | 9.4 | Fidelity | 181,742 | 9.4 |
| 285,254 | 13.9 | Insight | 280,282 | 14.5 |
| 61,073 | 3.0 | Lothbury | 60,570 | 3.2 |
| 145,614 | 7.1 | Partners Group | 157,230 | 8.2 |
| 20,862 | 1.0 | Threadneedle | 31,401 | 1.6 |
| 50,182 | 2.4 | UBS | 47,832 | 2.5 |
| 411 | 0.0 | Veritas | 625 | 0.0 |
| 643,081 | 31.3 | Partneriaeth Pensiynau Cymru | 604,237 | 31.3 |
| **2,055,010** | **100.0** | | **1,929,298** | **100.0** |

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y Gronfa:

| Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2019 | | | Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **%** | **Buddsoddiadau** | **£'000** | **%** |
| 285,253 | 15.4 | LF Wales PP Global Opportunities Equity Fund | 305,618 | 15.8 |
| 322,200 | 15.5 | LF Wales PP Global Growth Fund | 298,619 | 15.4 |
| 285,251 | 13.7 | LDI Solutions Plus Bonds | 280,279 | 14.5 |
| 324,729 | 15.6 | Aquila Life UK Equity Index Fund | 274,417 | 14.2 |
| 142,648 | 7.1 | Fidelity Institutional Select Global Equity | 137,117 | 7.1 |
| 139,699 | 6.7 | Aquila Life Global Dev Fundamental Fund | 119,881 | 6.2 |

## Nodyn 16c – Benthyca stoc

Mae'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi yn nodi y caniateir benthyca stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r gronfa'n benthyca unrhyw stoc.

e) Mae penderfyniad y Gronfa yn derfynol wrth ddehongli sut mae unrhyw drefniant a ddisgrifir o dan b), ch), d) ac dd) yn berthnasol i werth taliad credyd ymadael.

f) Os bydd corff a dderbynnir yn gadael ar sail rhoi'r gorau i giltiau (oherwydd nad oes gwarantwr yn ei le), yna bydd unrhyw gredyd ymadael yn cael ei dalu'n llawn i'r cyflogwr fel rheol.

<u>Cyrff ar yr Atodlen a Cyrff a Benderfynir</u>

a) Pan fo trefniant gwarantwr ar waith, ond nad oes trefniant rhannu risg ffurfiol yn bodoli, bydd y Gronfa'n ystyried sut mae'r dull o bennu cyfraddau cyfraniadau sy'n daladwy gan y cyflogwr yn ystod ei gyfranogiad yn y Gronfa yn adlewyrchu pa blaid sy'n gyfrifol am gyllido risgiau. Bydd y penderfyniad hwn yn llywio'r broses o bennu gwerth unrhyw daliad credyd ymadael.

b) Lle nad oes gwarantwr ffurfiol na threfniant rhannu risg, bydd y Gronfa'n ystyried sut mae'r dull o bennu cyfraddau cyfraniadau sy'n daladwy gan y cyflogwr yn ystod ei gyfranogiad yn y Gronfa yn adlewyrchu i ba raddau y mae'n gyfrifol am risgiau cyllido. Bydd y penderfyniad hwn yn llywio'r penderfyniad ar werth unrhyw daliad credyd ymadael.

c) Mae penderfyniad y Gronfa yn derfynol wrth ddehongli sut mae unrhyw drefniant a ddisgrifir o dan a) a b) yn berthnasol i werth taliad credyd ymadael.

ch) Os daw corff rhestredig neu gorff datrys yn gyflogwr sy'n gadael oherwydd ad-drefnu, uno neu gymryd drosodd, yna ni thelir unrhyw gredyd ymadael.

d) Os bydd corff neu gorff datrys wedi'i drefnu yn dod i ben ar sail giltiau (oherwydd nad oes gwarantwr yn ei le), yna bydd unrhyw gredyd ymadael yn cael ei dalu'n llawn i'r cyflogwr fel rheol.

<u>Cyffredinol</u>

a) Bydd y Gronfa yn cynghori'r cyflogwr sy'n gadael yn ogystal â'r awdurdod gosod a / neu gyflogwyr cynllun perthnasol eraill o'i phenderfyniad i wneud penderfyniad credyd ymadael o dan Reoliad 64.

b) Yn ddarostyngedig i unrhyw rannu risg neu drefniadau a ffactorau eraill a drafodwyd uchod, wrth benderfynu ar y sefyllfa cyllido rhoi'r gorau iddi, bydd y Gronfa yn gyffredinol yn gwneud asesiad yn seiliedig ar werth y cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr yn ystod eu cyfranogiad, yr asedau a ddyrannwyd pan ymunodd â'r Gronfa. a'r enillion buddsoddi priodol a enillwyd ar y ddau.

c) Bydd y Gronfa hefyd yn ystyried os bydd unrhyw gyfraniadau sy'n ddyledus neu arian sy'n ddyledus i'r Gronfa yn parhau i fod heb eu talu gan y cyflogwr ar y dyddiad rhoi'r gorau iddi. Os yw hyn yn wir, sefyllfa ddiofyn y Gronfa fydd didynnu'r rhain o unrhyw daliad credyd ymadael.

ch) Gwneir y penderfyniad terfynol gan y Pennaeth Cyllid, ar y cyd â chyngor gan Actiwari a / neu gynghorwyr cyfreithiol y Gronfa lle bo angen, gan ystyried y pwyntiau a ddelir yn y polisi hwn.

d) Mae'r Gronfa'n derbyn y gallai fod rhai sefyllfaoedd pwrpasol eu natur ac nad ydynt yn dod o fewn unrhyw un o'r categorïau uchod. Yn y sefyllfaoedd hyn bydd y Gronfa yn trafod ei dull o bennu

credyd ymadael gyda'r holl bartïon yr effeithir arnynt. Mae penderfyniad y Gronfa yn yr achosion hyn yn derfynol.

dd) Bydd y Gronfa yn cynghori'r cyflogwr sy'n gadael am y swm sydd i'w ad-dalu ac yn ceisio gwneud y taliad cyn pen chwe mis o'r dyddiad gadael. Er mwyn cwrdd â'r amserlen chwe mis, mae'r Gronfa'n gofyn am roi gwybod yn brydlon am ymadawiad cyflogwr a'r holl ddata a gwybodaeth berthnasol yn ôl y gofyn. Ni all y Gronfa wneud unrhyw daliad credyd ymadael nes ei bod wedi derbyn yr holl ddata a gwybodaeth y gofynnwyd amdani.

